# Gweirgloddiau Gwych Cymru

**Newyddion y Gaeaf 2021**

**Annwyl bawb,** mae digonedd o newyddion da gyda ni i godi'ch calonnau ar ddechrau 2021. Mae hadau wedi'u hau, cynnydd wedi'i wneud ar lwybr cerdded er lles, ap a grŵp gweirgloddiau wedi'u lansio – ac mae newyddion gyda ni am gyfle i chi ymuno â grŵp newydd yn Sir Benfro!


## Gweirgloddiau i'r gymuned

Adeg torri a hau yw'r hydref a'r gaeaf yng nghylch bywyd y weirglodd. Yr hydref yw'r amser i hau'r gribell felen a blodau gwyllt eraill, am fod angen cyfnodau oer i rai rhywogaethau ddechrau egino. Y tymor diwethaf buom yn hau sawl hectar o hadau lleol ar draws safleoedd yn Ne Cymru, yn Ysgol Tre Ioan, Maenordy Scolton, Halwyndir Priordy Hwlffordd ac Ysbyty Cyffredinol Llwynhelyg. Yn Halwyndir Priordy Hwlffordd, ymunodd yr ysgol gynradd leol â ni, ynghyd â'r Soroptimists, cynghorwyr lleol, a'r Maer. Cafodd y weirglodd fendith gan y ficer lleol hyd yn oed! Rydyn ni'n edrych ymlaen yn fawr i weld pa weiriau a blodau gwyllt fydd yn blodeuo yn yr haf.

Yng Ngogledd Cymru, heuwyd gweirgloddiau newydd gyda hadau blodau gwyllt o Gymru – yn Ysgol San Siôr, Llandudno gyda help y disgyblion, ac ym mharc chwarae newydd ystâd Maesgeirchen, Bangor gyda help gwirfoddolwyr, y cynghorydd lleol ac Elfennau Gwyllt. Yn Ysgol Pendalar, Caernarfon, gwelsom 21 o rywogaethau blodau gwyllt yn tyfu yn y glaswellt, yn aros am gyfle i flodeuo! Mae ardal i dreialu dôl fechan wedi'i marcio a'i chribinio a hadau lleol y gribell felen wedi'u gwasgaru yno. Mae'r ysgol







yn awyddus iawn i dreialu gweirglodd ac maent hefyd yn edrych ymlaen yn fawr i gael cerflun o wenynen o goed helyg i'w roi yn eu gweirglodd fechan!

## Llwybr Iechyd y Weirglodd, Bangor

Buom yn gweithio gyda'r Centre for Sustainable Healthcare, Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru ac Ysbyty Gwynedd i ddatblygu llwybr cerdded iechyd a lles wedi'i fapio a'i farcio ag arwyddbyst, o'r ysbyty i warchodfa'r Ymddiriedolaeth Natur gerllaw yn Eithinog.

Yn ddiweddar buom yn ymgynghori â'r gweithwyr iechyd proffesiynol yn uned iechyd meddwl Hergest ac roedd llawer o frwdfrydedd dros y llwybr: "Am fenter hyfryd, rwy'n edrych ymlaen at glywed sut bydd pethau'n siapio. Wedi gwirioni ar y syniad am y daflen" meddai eu Seicolegydd Clinigol. Caiff y llwybr cerdded ei ddangos ar daflen gydag awgrymiadau ar gyfer mannau aros i ymgolli yn y golygfeydd a byd natur drwy'r holl synhwyrau. Gobeithiwn y caiff ei ddefnyddio gan staff yr ysbyty, ymwelwyr, aelodau o'r gymuned leol a hyd yn oed at ddibenion clinigol.

## Grwpiau gweirglodd

Newyddion cyffrous: rydym yn lansio Grŵp Gweirgloddiau newydd yn Sir Benfro! Os oes gennych ddarn o laswellt y gellir ei droi'n weirglodd neu os hoffech rwydweithio a chael cynghorion gan berchnogion gweirgloddiau eraill yn Sir Benfro, gallai'r grŵp hwn fod yn ddelfrydol i chi. Ymunwch â'n cyfarfod cyntaf ar-lein ar 28 Ionawr i gael gwybod mwy – dilynwch y ddolen hon i weld gwybodaeth am y digwyddiad: [https://fb.me/e/1OkksYZyL.](https://fb.me/e/1OkksYZyL)

Ar Ynys Môn lansiwyd grŵp dolydd newydd sbon ym mis Awst ar y cyd â Chwlwm Seiriol. Er gwaethaf y pandemig bwriwyd ymlaen, gan gychwyn y grŵp trwy Zoom a mwynhau sgwrs ragorol yn y cyfarfod cyntaf gan Hilary Kehoe o PONT. Ers hynny, mae'r grŵp wedi bod yn cyfarfod ar-lein bob mis, a llwyddwyd i gynnal un cyfarfod wyneb-yn-wyneb hyd yn oed rhwng y cyfnodau clo. Mae'r grŵp wedi bod yn tyfu'n gyson ac erbyn hyn mae gennym 50 o bobl ar y rhestr bostio!




## WaxcApp

Lansiwyd WaxcApp – ap newydd gwyddoniaeth y dinesydd i fapio glaswelltiroedd capiau cwyr sydd dan fygythiad – ym mis Hydref, a bu'n llwyddiant mawr.

Daeth bron i 400 o arolygon i law i gyd, eu hanner yng Nghymru. Mae tymor ffyngau capiau cwyr wedi dod i ben bellach, felly byddwn yn dadansoddi'r data ac yn ei rannu ar wefan Canlyniadau WaxcApp yn fuan. Mae ein grŵp Facebook #WaxcapWatch yn boblogaidd, gyda dros 400 o aelodau.

Ymunwch â'r grŵp i ddysgu mwy am gapiau cwyr a rhannu'ch lluniau. Diolch i bawb a ddefnyddiodd yr ap ac a roddodd adborth. Bydd yma eto'r tymor nesaf!




Uchod: Canlyniadau arolwg WaxcApp. Mae'r dotiau gwyrdd yn dangos y safleoedd â'r ystod fwyaf o liwiau capiau cwyr, sy'n awgrymu amrywiaeth fawr o rywogaethau.

Cadwch mewn cysylltiad drwy'r cyfryngau cymdeithasol:

**Twitter**: @plantlifecymru (#gweirgloddiaucymru #meadowscymru)
**Facebook**: @plantlifecymru
**Instagram**: meadows_cymru_plantlife
Neu anfonwch eich lluniau o weirgloddiau at **meadowscymru@plantlife.org.uk**

gweirgloddiau gwych cymru | magnificent meadows wales

Llywodraeth Cymru Welsh Government · Plantlife · Ymddiriedolaeth Genedlaethol National Trust · Centre for Sustainable Healthcare · Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro Pembrokeshire Coast National Park · Brecon Beacons National Park